OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1820 (Cy.148)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*5 Gorffennaf 2005*
Yn dod i rym - -	*16 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd sy'n cael ei achosi gan wastraff, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 16 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

(a) ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff" ("*the Waste Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC(**3**) ar wastraff fel y'i diwygiwyd gan—

(i) Cyfarwyddebau'r Cyngor 91/156/EEC(**4**) a 91/692/EEC(**5**);

(ii) Penderfyniad y Comisiwn 96/350/EC(**6**); a

(iii) Rheoliad (EC) Rhif 1882/2003(**7**);

(b) ystyr "Cyfarwyddeb 67/548/EEC" ("*Directive 67/548/EEC*") (y Gyfarwyddeb Sylweddau Peryglus, y cyfeirir ati yn y Cyflwyniad i'r Rhestr) yw Cyfarwyddeb 67/548/EEC(**8**) ar gyd-ddynesiad y cyfreithiau, y rheoliadau a'r darpariaethau gweinyddol o ran dosbarthu,

(**1**) S.I. 2005/850.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) OJ Rhif L 194, 25.7.1975, t.39.
(**4**) OJ Rhif L 78, 26.3.1991, t.32.
(**5**) OJ Rhif L 377, 31.12.1991, t.48.
(**6**) OJ Rhif L 135, 6.6.1996, t.32.
(**7**) OJ Rhif L 284, 31.10.2003, t.1.
(**8**) OJ Rhif L 196, 16.8.1967, t.1.

pecynnu a labelu sylweddau peryglus fel y'i diwygiwyd diwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/73/EC(**9**); ac

(c) ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus" ("*the Hazardous Waste Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC(**10**) 31 Rhagfyr 1991 ar wastraff peryglus, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 94/31/EC(**11**), ac mae cyfeiriad at—

(i) atodiad o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus yn gyfeiriad at yr atodiad hwnnw fel y'i nodir am y tro yn yr atodlen berthnasol i'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus; a

(ii) nodweddion peryglus yn gyfeiriad at y nodweddion a nodir yn Atodiad III.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "Penderfyniad y Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC(**12**) 3 Mai 2000 sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC(**13**) sy'n sefydlu rhestr wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC(**14**) sy'n sefydlu rhestr o wastraff peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus, fel y'i diwygiwyd gan—

(i) Penderfyniad y Comisiwn 2001/118/EC(**15**);

(ii) Penderfyniad y Comisiwn 2001/119/EC(**16**); a

(iii) Penderfyniad y Cyngor 2001/573/EC(**17**));

(b) ystyr "y Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes*") yw'r rhestr wastraffoedd sydd yn yr Atodiad i Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd, sef rhestr a lunnir—

(i) o ran gwastraffoedd sy'n perthyn i'r categorïau a restrir yn Atodiad I (Categorïau o Wastraff) o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, gan y Comisiwn, ac yntau'n gweithredu'n unol â'r weithdrefn a osodwyd yn Erthygl 18 o'r Gyfarwyddeb honno;

(ii) o ran gwastraff peryglus, yn unol â'r weithdrefn a osodwyd yn Erthygl 18 o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ar sail—

(aa) Atodiad I (Categorïau neu fathau generig o wastraff peryglus a restrir yn unol â'u natur neu'r gweithgaredd a'u cynhyrchodd) i'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus; a

(bb) Atodiad II (Cyfansoddion gwastraffoedd yn Atodiad 1.B. sy'n eu gwneud yn beryglus pan fydd iddynt y nodweddion a ddisgrifir yn Atodiad III) i Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus,

ac mae cyfeiriad at y Rhestr Wastraffoedd yn cynnwys cyfeiriad at y Cyflwyniad iddi ("y Cyflwyniad i'r Rhestr").

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y Rheoliadau Gwastraff Peryglus" ("*the Hazardous Waste Regulations*") yw Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**18**);

(b) mae i "gwastraff peryglus" ("*hazardous waste*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 6 o'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus;

(**9**) OJ Rhif L152, 30.4.2004, t.1.
(**10**) OJ Rhif L 377, 31.12.1991, t.20.
(**11**) OJ Rhif L 168, 2.7.1994, t.28.
(**12**) OJ Rhif L 226, 6.9.2000, t.3.
(**13**) OJ Rhif L 5, 7.1.1994, t.15.
(**14**) OJ Rhif L 356, 31.12.1994, t.14.
(**15**) OJ Rhif L 47, 16.2.2001, t.1.
(**16**) OJ Rhif L 47, 16.2.2001, t.32.
(**17**) (**10**) OJ Rhif L 203, 28.7.2001, t.18.
(**18**) O.S. 2005/1806 (Cy.138).

(c) mae i "gwastraff" ("*waste*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 2(1)(b) o'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus; ac

(ch) ystyr "sylwedd peryglus" ("*dangerous substance*"), er gwaethaf paragraff 5 o'r Cyflwyniad i'r Rhestr, yw sylwedd sydd am y tro yn sylwedd peryglus o fewn yr ystyr a roddir i "dangerous substance" yn rheoliad 2 o Reoliadau Cemegion (Gwybodaeth am Beryglon a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 2002(**19**).

Effaith y Rhestr Wastraffoedd

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 2(3)(ch) ac yn sgil darpariaethau'r rheoliad hwn, mae'r Rhestr Wastraffoedd yn effeithiol at ddibenion sy'n gysylltiedig â rheoleiddio gwastraff a gwastraff peryglus, ac yn benodol at ddibenion —

(a) penderfynu a yw deunydd neu sylwedd yn wastraff neu'n wastraff peryglus, yn ôl y digwydd;

(b) dosbarthu a chodio gwastraffoedd a gwastraff peryglus,

ac yn unol â hynny y mae'r Rhestr Wastraffoedd a'r codau a'r penawdau penodau i'w cydnabod a'u defnyddio at y dibenion hynny.

(2) Nid yw paragraff (1) yn lleihau effaith rheoliadau a wneir o dan adran 62A(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**20**) neu unrhyw benderfyniad o dan reoliadau 8 neu 9 o'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 2(3)(c), mae'r nodiadau yn y Cyflwyniad i'r Rhestr yn effeithiol at ddibenion—

(a) dehongli'r Rhestr Wastraffoedd;

(b) penderfynu a yw deunydd neu sylwedd yn wastraff neu'n wastraff peryglus, yn ôl y digwydd; ac

(c) adnabod gwastraff neu wastraff peryglus, yn ôl y digwydd.

(4) Diffinnir yn llawn y gwahanol fathau o wastraff yn y Rhestr Wastraffoedd gan y cod chwe digid ar gyfer y gwastraff a chan benawdau pennod dau ddigid a phedwar digid yn eu trefn, ac yn unol â hynny, at ddibenion sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff neu wastraff peryglus—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at wastraff drwy ei god chwe digid fel a bennir yn y Rhestr Wastraffoedd i'w drin fel cyfeiriad at y gwastraff hwnnw; a

(b) mae cyfeiriad at wastraffoedd gan bennawd pennod dau ddigid neu pedwar digid yn gyfeiriad at y deunyddiau gwastraff a restrir yn y Rhestr Wastraffoedd o dan bennawd y bennod honno.

(5) Pan fo unrhyw ddarpariaeth (sut bynnag y caiff ei mynegi) o ddeddfiad yn gosod gofyniad bod cod chwe digid i'w roi, neu pan fo'n awdurdodi cyflawni unrhyw weithred neu'n awdurdodi hepgor unrhyw ofyniad ar yr amod y rhoddir y cod chwe digid, bernir na chydymffurfiwyd â'r gofyniad hwnnw neu â'r amod hwnnw onid y cod a roddir yw'r cod ar gyfer y gwastraff, neu wastraff peryglus, yn ôl y digwydd, yn y Rhestr Wastraffoedd.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), bernir bod gwastraff a farciwyd â seren yn y Rhestr Wastraffoedd wedi ei restru yn y Rhestr Wastraffoedd fel gwastraff peryglus at ddibenion rheoliad 6(a) o'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus.

(7) Pan fo gwastraff a farciwyd â seren yn y Rhestr Wastraffoedd yn un neu ragor o sylweddau peryglus neu'n cynnwys un neu ragor o sylweddau peryglus, bernir ei fod yn wastraff peryglus—

(**19**) O.S. 2002/1689, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3384.
(**20**) 1990 p.43.

(a) oni bo'r disgrifiad yn y Rhestr Wastraffoedd yn cyfeirio at sylwedd peryglus, ni waeth beth fo gwir grynodiad unrhyw sylwedd peryglus a fo'n bresennol neu beth fo nodweddion y gwastraff neu'r sylwedd hwnnw;

(b) os adnabyddir gwastraff yn beryglus gan gyfeiriad penodol neu gyffredinol (sut bynnag y caiff ei fynegi) yn sylweddau peryglus, os yw crynodiadau'r sylweddau hynny o'r fath (hynny yw, canran yn ôl pwysau) fel bod y gwastraff-—

(i) yn dangos un neu ragor o nodweddion peryglus; a

(ii) yn achos unrhyw un o'r nodweddion peryglus H3 i H8, H10 neu H11, yn bodloni gofynion rheoliad 4.

Nodweddion a phriodoleddau sylweddau peryglus a ddosbarthwyd yn wastraff peryglus

4. Mae gwastraff yn bodloni gofynion y rheoliad hwn o ran unrhyw un o'r priodoloeddau H3 i H8, H10(**21**) ac H11 o Atodiad III, pan fo'n arddangos un neu ragor o'r priodoleddau canlynol—

(a) fflachbwynt ≤ 55 °C,

(b) un neu ragor o sylweddau a ddosbarthwyd(**22**) yn wenwynig iawn mewn cyfanswm crynodiad ≥ 0,1 %,

(c) un neu ragor o sylweddau a ddosbarthwyd yn wenwynig mewn cyfanswm crynodiad ≥ 3 %,

(ch) un neu ragor o sylweddau a ddosbarthwyd yn niweidiol mewn cyfanswm crynodiad ≥ 25 %,

(d) un neu ragor o sylweddau cyrydol a ddosbarthwyd yn R35 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 1 %,

(dd) un neu ragor o sylweddau cyrydol a ddosbarthwyd yn R34 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 5 %,

(e) un neu ragor o sylweddau llidiol a ddosbarthwyd yn R41 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 10 %,

(f) un neu ragor o sylweddau llidiol a ddosbarthwyd yn R36, R37, R38 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 20 %,

(ff) un sylwedd y gwyddys ei fod yn garsinogenig o gategori 1 neu 2 mewn crynodiad ≥ 0,1 %,

(g) un sylwedd y gwyddys ei fod yn garsinogenig o gategori 3 mewn crynodiad ≥ 1 %

(ng) un sylwedd gwenwynig ar gyfer atgynhyrchu categori 1 neu 2 a ddosbarthwyd yn R60, R61 mewn crynodiad ≥ 0,5 %,

(h) un sylwedd gwenwynig ar gyfer atgynhyrchu categori 3 a ddosbarthwyd yn R62, R63 mewn crynodiad ≥ 5 %,

(i) un sylwedd mwtagenig o gategori 1 neu 2 a ddosbarthwyd yn R46 mewn crynodiad ≥ 0,1 %,

(j) un sylwedd mwtagenig o gategori 3 a ddosbarthwyd yn R68 mewn crynodiad ≥ 1 %.

Diwygiadau canlyniadol

5. Mae Atodlen 2 (sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth) yn effeithiol.

(**21**) Yng Nghyfarwyddeb 92/32/EEC sy'n diwygio am y seithfed gwaith Gyfarwyddeb 67/548/EEC cyflwynwyd y term 'toxic for reproduction'. Yn lle'r term 'teratogenic' rhoddwyd y term cyfatebol 'toxic for reproduction'. Ystyrir bod y term hwn yn unol â nodwedd H10 yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 91/689/EEC.

(**22**) Yng Nghyfarwyddeb 92/32/EEC sy'n diwygio am y seithfed gwaith Gyfarwyddeb 67/548/EEC cyflwynwyd y term 'toxic for reproduction'. Yn lle'r term 'teratogenic' rhoddwyd y term cyfatebol 'toxic for reproduction'. Ystyrir bod y term hwn yn unol â nodwedd H10 yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 91/689/EEC.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**23**)

D. Elis-Thomas
5 Gorffennaf 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol.

(**23**) 1998 p.38.